# WILLIAMS, GRIFFITH (1824 - 1881), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac awdur



**Enw:** Griffith Williams
**Dyddiad geni:** 1824
**Dyddiad marw:** 1881
**Rhiant:** Elin Williams
**Rhiant:** Griffith Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Nolwyddelan yn 1824, yn fab i Griffith ac Elin Williams, symudodd y teulu'n fuan i Flaenau Ffestiniog. Heb unrhyw addysg ond addysg yr ysgol Sul, aeth i weithio yn y chwarel.

Tyfodd yn areithydd cymeradwy ar ddirwest; dechreuodd bregethu (1848), ac o 1849 hyd 1853 bu yng Ngholeg y Bala. Aeth wedyn i gadw ysgol ddyddiol yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog ond yn 1855 symudodd i Dalsarnau i briodi (cafodd deulu niferus) ac i gadw siop. Ordeiniwyd ef yn 1857.

Cofir ef yn bennaf am ei ffraethineb dihysbydd. Sgrifennai hefyd yn ddiddorol iawn yn y cyfnodolion, a chyhoeddodd dri llyfr: *Cofiant y Parch. Richard Humphreys, Dyffryn*, 1873; *Yr Hynod William Ellis, Maentwrog*, 1875 (hanes hen flaenor); a *Bwthyn fy Nhaid Oliver*, 1880, ail arg. 1904. Bu farw 23 Hydref 1881, a chladdwyd ym mynwent capel y Methodistiaid Calfinaidd, Dyffryn Ardudwy.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

Robert Owen (Pennal), *Cofiant a phregethau y Parch. Griffith Williams, Talsarnau* (Bala 1886)

## Gweithiau

Griffith Williams, *Cofiant am y Parch. Richard Humphreys, Dyffryn yn nghyda chasgliad o'i bregethau a'i draethodau* (Wrecsam 1873)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 156365324

Wikidata: Q20804709

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu